

## Tasg 1

# Gwarthus!

1. Beth yw ystyr y frawddeg olaf?:

“Ond cofiwch, da chi, bydd pris y siocled yn uchel ble bynnag byddwch chi’n ei brynu!”

2. Beth yw agwedd Will Smith tuag at siocled? Rhowch resymau dros eich ateb.

3. Mae Will Smith yn rhoi her i chi gymharu’r lluniau isod.

Edrychwch arnyn nhw’n ofalus.



Mewn grŵp, siaradwch am:

- y ddau blentyn (pryd a gwedd, dillad a.y.b.)
- ble maen nhw
- beth maen nhw'n ei wneud
- eu cefndir – bydd rhaid i chi ddychmygu ychydig fan hyn
- eu bywyd – defnyddiwch wybodaeth o'r darn darllen i'ch helpu chi
- sut maen nhw'n teimlo yn y lluniau a pham
- pa mor bwysig yw siocled yn eu bywyd nhw a pham
- eu dyfodol – meddyliwch am hyn.

Cymharwch eich syniadau chi ar gyfer y pum pwynt bwled olaf â syniadau grwpiau eraill.

4. Dychmygwch mai chi yw un o'r plant yma.

Ysgrifennwch ddarn am eich bywyd chi.